# Bywyd crefyddol ffoaduriaid Iddewig yng Nghymru

**CANLLAWIAU I ATHRAWON**

Mae hwn yn un o 20 adnodd am yr Holocost a Chymru. Mae'n archwilio bywyd crefyddol ffoaduriaid Iddewig yng Nghymru.

**Oedran:** 9-14.

## 1. DIBEN YR ADNODD

Mae dysgu am yr Holocost trwy enghreifftiau lleol yn galluogi'r dysgwyr i **ddarganfod eu treftadaeth** a **datblygu ymdeimlad o le a chynefin**. Mae hefyd yn cael gwared ar y syniad o 'aralledd' *(otherness)* – sef bod hyn wedi digwydd i bobl eraill mewn man arall ac ar adeg arall – ac, yn lle hynny, **mae'n creu teimladau o gysylltiad ac empathi**.

## 2. NODAU DYSGU

Nod yr adnodd yw galluogi'r dysgwyr i:

1. Archwilio materion moesegol a moesol yn y gorffennol ac yn y byd cyfoes, ac ymgysylltu â chysyniadau o ragfarn, gwahaniaethu, gwrthsemitiaeth, eithafiaeth, cydraddoldeb, goddefgarwch, dynoliaeth, cyfrifoldeb, da a drwg, gwneud cysylltiad rhwng problemau'r gorffennol a'r presennol, ac ystyried beth sy'n digwydd yn lleol ac yn fyd-eang heddiw.

2. Datblygu meddwl beirniadol a myfyriol.

3. Dysgu am gymhlethdod cymdeithasau dynol a'r amrywiaeth ynddynt, ac effaith gweithredoedd a chredoau.

4. Dod yn ddinasyddion cyfrifol yng Nghymru a'r byd ehangach.

## 3. FFOCWS YR ADNODD

1. Mynd ati mewn modd beirniadol i adolygu'r modd y mae digwyddiadau'r gorffennol a digwyddiadau cyfoes yn cael eu canfod, eu dehongli a'u cynrychioli; ffurfio eu barn eu hunain a meithrin hunanymwybyddiaeth.

2. Dadansoddi a gwerthuso tystiolaeth yn feirniadol; dehongli a syntheseiddio gwybodaeth; dod i gasgliadau gwybodus am y byd, a'i orffennol, ei bresennol a'i ddyfodol.

3. Dysgu am gymhlethdod cymdeithasau dynol a'r amrywiaeth ynddynt (e.e., gwerthoedd, normau cymdeithasol, defodau, a ffydd) ac effaith gweithredoedd a chredoau.

4. Datblygu dealltwriaeth o'r heriau a'r cyfleoedd yn eu bywydau personol ac yn y gymdeithas yn ehangach, ac ystyried sut i ymateb yn foesegol.

## 4. PA SGILIAU, GWYBODAETH A PHROFIAD Y MAE'R ADNODD YN HELPU I'W DATBLYGU?

Dangosyddion dysgu:

1. Gwybodaeth am fywyd crefyddol ffoaduriaid Iddewig yng Nghymru, a dealltwriaeth ohono: gwasanaethau crefyddol, *cheder*, a bwyd *kosher*.

2. Y gallu i werthuso'n feirniadol, a defnyddio ffynonellau gwahanol (e.e., ffotograffau a hanesion llafar) i ffurfio a mynegi eu safbwyntiau, eu barn, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth eu hunain.

3. Dealltwriaeth o gysyniadau moesegol a moesol, e.e., gwahaniaethu, hiliaeth, gwrthsemitiaeth, a phwysigrwydd gwerthoedd democrataidd a hawliau dynol.

4. Y gallu i wneud cysylltiad rhwng gwahaniaethu ar sail hil, ethnigrwydd a chrefydd yn y gorffennol ac yn y byd cyfoes, ac ystyried yr hyn sy'n digwydd heddiw yng Nghymru, y DU, a'r byd, e.e., ffoaduriaid sy'n dod i'r DU/i Gymru.

5. Deall bod gan bobl gredoau, gwerthoedd, a phrofiadau gwahanol, a pharchu anghenion a hawliau pobl eraill.

6. Y gallu i weithio'n rhan o dîm.

7. Profiad o gymryd rhan mewn trafodaethau a thasgau grŵp.

8. Dod yn fwy ymwybodol o'u profiadau a'u teimladau, eu gwerthoedd a'u credoau eu hunain a gallu eu cyfathrebu.

9. Meithrin empathi tuag at bobl eraill a'u hamgylchiadau/a'r heriau y maent yn/wedi eu hwynebu, e.e., plant a ddaeth i'r DU ar y *Kindertransport*, neu ffoaduriaid modern.

## 5. Y MODD Y MAE'R ADNODD YN CEFNOGI DYSGU MEWN CYD-DESTUNAU LLEOL (CYNEFIN), CENEDLAETHOL A RHANBARTHOL

Mae'r adnodd hwn yn galluogi'r dysgwyr i glywed straeon pobl yr effeithiwyd arnynt yn uniongyrchol gan yr Holocost ac a oedd yn byw yng Nghymru. Dyma hanesion pobl a oedd yn rhan o'u cymunedau Cymraeg lleol ac a gyfrannodd atynt. Ymgartrefodd y bobl hyn a chael teuluoedd yma, ac mae eu hanes yn rhan o stori Cymru.

Gall yr enghreifftiau lleol hyn helpu'r dysgwyr i ddeall y cysylltiad rhwng hanes Cymru a digwyddiadau byd-eang megis yr Ail Ryfel Byd a'r Holocost.

## 6. GWYBODAETH GEFNDIR

*Cheder:*

Dosbarthiadau crefyddol ar gyfer plant oed cynradd yw *cheder,* lle mae hanfodion y grefydd Iddewig a'i thraddodiadau yn cael eu haddysgu. Mae'r plant hefyd yn dysgu sut i ddarllen Hebraeg a deall rhywfaint o eirfa Hebraeg sylfaenol. Mae presenoldeb rheolaidd mewn *cheder* fel arfer yn rhagofyniad i ganiatáu i fechgyn a merched ddarllen cyfran o'r Torah ar gyfer eu *Bar Mitzvah* a *Bat Mitzvah*.

Bwyd *Kosher*:

Mae'r cyfreithiau deietegol Iddewig, sydd wedi'u gwreiddio yn y grefydd, yn nodi pa fwydydd y gall neu na all Iddewon eu bwyta. Mae'r cyfreithiau hefyd yn rhagnodi sut y mae'r bwyd yn cael ei baratoi cyn iddo gyrraedd y cartref ac yn y cartref. Yn gyffredinol, po fwyaf Uniongred yw cefndir yr unigolyn, mwyaf manwl y bydd yn cadw'r rheolau hyn.

## 7. SYNIADAU a CHWESTIYNAU

1. Gellir defnyddio’r adnodd hwn i archwilio bywyd crefyddol ffoaduriaid Iddewig yng Nghymru ac i ddeall pwysigrwydd crefydd yn eu bywydau bob dydd.

Cwestiynau:

- Pam yr oedd defodau crefyddol yn bwysig i ffoaduriaid Iddewig?
- Pa rwystrau y daeth ffoaduriaid Iddewig yng Nghymru ar eu traws wrth arfer eu crefydd?

2. Gellir defnyddio'r adnodd hwn i archwilio arferion crefyddol Iddewig.

Cwestiynau:

- Beth y mae'r dysgwyr yn ei wybod am arferion crefyddol Iddewig, e.e., mynychu'r synagog, addysg grefyddol, a chyfreithiau deietegol?
- Beth yw *cheder*?
- Beth yw cyfreithiau deietegol Iddewig?
- Beth yw bwyd *kosher*?

Gofynnwch i'r dysgwyr edrych ar y delweddau o'r seigiau Cymreig poblogaidd, a thrafod, mewn parau, pa un a yw'r seigiau'n rhai *kosher* ai peidio. Dylent ysgrifennu eu hatebion ar y daflen gweithgaredd ac yna drafod eu hatebion â'r dosbarth.

Rhoddir atebion cywir isod gydag esboniad ynghylch pam nad yw saig benodol yn *kosher*.

- Picau ar y maen: *KOSHER*
- Pelenni cig Cymreig: DDIM YN *KOSHER* – mae'r rhain yn cynnwys briwgig porc, sy'n cael ei wahardd o dan *kashrut*.
- Selsig Morgannwg: *KOSHER* – nid yw’r selsig hyn yn cynnwys unrhyw gig, er bod rhaid i’r caws a ddefnyddir fod wedi’i ardystio’n *kosher* (mae rhai cawsiau’n defnyddio ensym, rennet, o stumog anifail i setio’r caws ac felly nid ydynt yn *kosher* am eu bod yn cymysgu llaeth â ‘chig’ ' yn y broses o wneud y caws).
- Cawl gyda chaws Caerffili: DDIM YN *KOSHER* – gwaherddir cymysgu cig a chynnyrch llaeth (gan gynnwys caws neu fenyn) o dan *kashrut*
- Cregyn gleision Conwy: DDIM YN *KOSHER* – gwaharddir pysgod cregyn dan *kashrut* .
- Pysgod a sglodion: *KOSHER* cyn belled nad ydynt wedi'u coginio mewn lard (braster mochyn).

Ffaith ddiddorol: cyflwynwyd pysgod a sglodion i’r DU am y tro cyntaf gan ymfudwyr Iddewig yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

3. Gellir defnyddio’r adnodd i archwilio a meithrin dealltwriaeth o bwysigrwydd goddefgarwch ac empathi mewn cymdeithas agored, ddemocrataidd.

Cwestiynau:

- Sut y mae'r dysgwyr yn ymateb i arferion crefyddol heblaw eu rhai nhw?
- Pam y mae'n bwysig parchu crefydd pobl eraill?
- Sut y mae credoau, defodau, gwerthoedd, a normau/arferion cymdeithasol yn effeithio ar benderfyniadau a gweithredoedd y dysgwyr? Sut y gallant eu helpu i ymddwyn mewn modd cyfrifol a moesegol?

Os oes gennych ddysgwyr Iddewig yn eich dosbarth, efallai yr hoffech eu hannog i rannu eu profiadau eu hunain.

## 8. YMCHWIL A RHAGOR O WYBODAETH

**1. Cyflwyniad i addysgu a dysgu am yr Holocost:**

Mae'r Argymhellion ar gyfer Addysgu a Dysgu am yr Holocost o eiddo'r Gynghrair Ryngwladol Cofio'r Holocost (IHRA) yn darparu gwybodaeth am pam, beth a sut o ran addysgu am yr Holocost.

Gall taflen waith Ymddiriedolaeth Addysgol yr Holocost (Holocaust Educational Trust), sef 'Defining the Holocaust', gael ei defnyddio i gyflwyno pwnc yr Holocost i'r dysgwyr; mae'n eu helpu i feddwl am y modd y mae'r Holocost yn cael ei ddiffinio a pham y mae'r mater o ddiffiniad yn bwysig.

**2. Deunydd darllen pellach:**

– *Cheder*:

Wikipedia: *Cheder*.

– Bwyd *Kosher*:

Chabad.org: *What Is Kosher?*

Jewish Virtual Library: Jewish Dietary Laws (*Kashrut*): Overview of Laws & Regulations.

– Ellen Davis:

Ellen Davis, *Kerry's Children: A Jewish Childhood in Nazi Germany and Growing up in South Wales* (Pen-y-bont ar Ogwr: Seren, 2004).

– Castell Gwrych:

Ffoaduriaid Sosialaeth Genedlaethol yng Nghymru: Castell Gwrych.

Erwin Seligmann, *Our Cultural Work, Gwrych Castle Yearbook 1939/40* (Wiener Holocaust Library, OSP3600).

**3. Rhestr o 20 adnodd am yr Holocost a Chymru:**

- *Kindertransport* 1: Bywyd Iddewig yng Nghanolbarth Ewrop cyn yr Ail Ryfel Byd.
- *Kindertransport* 2: Y Daith i Brydain.
- *Kindertransport* 3: Cyrraedd Cymru.

- *Kindertransport* 4: Bywyd yng Nghymru.
- Atgofion o *Kristallnacht*: Dinistr a Dianc.
- Atgofion o *Kristallnacht*: Y *Bar Mitzvah* olaf.
- Arlunwyr Iddewig yng Nghymru: Josef Herman.
- Arlunwyr Iddewig yng Nghymru: Heinz Koppel.
- Aero Zipp Fasteners yn Ystad Fasnachu Trefforest.
- General Paper & Box Manufacturing Company yn Ystad Fasnachu Trefforest.
- ‘Estroniaid Gelyniaethus’ a Gwersylloedd Caethiwo.
- ‘Estroniaid Gelyniaethus’ a Hawliau Dynol.
- Ffoaduriaid Iddewig a oedd yn Weision Domestig.
- Ffoaduriaid Iddewig yng Nghymru a oedd yn Feddygon, Deintyddion a Nyrsys.
- Ffoaduriaid Iddewig yn y Fyddin Brydeinig yn ystod yr Ail Ryfel Byd.
- Bywyd Crefyddol Ffoaduriaid Iddewig yng Nghymru.
- Y Gymraeg.
- Rhyddhad.
- Hunaniaeth.
- Cofio'r Holocost.